Cymru Iach ar Waith
Healthy Working Wales

Cymorth yn y Gwaith
In-Work Support

Undeb Ewropeaidd
European Union
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

# Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith
# Gogledd Cymru

## Adroddiad Effaith

2015 - 2022



Cyflwynwyd gan
RCS Wales

2023

RCS
LLES AR GYFER GWEITHIO
WELLBEING FOR WORK

# Cefndir a Throsolwg o’r Prosiect

Darparodd RCS y Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith yng Ngogledd Cymru rhwng 2015 a 2022. Ariannwyd y gwasanaeth yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. Roedd yn gweithredu i ddechrau ar draws Conwy, Sir Ddinbych, Ynys Môn a Gwynedd, ac fe'i ehangwyd yn 2021 i gynnwys Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Adeiladodd Cymorth yn y Gwaith ar lwyddiant 'Gwasanaeth Addas i Waith' y RCS, a gafodd ei dreialu rhwng 2010-2013.

Roedd Cymorth yn y Gwaith yn darparu cymorth holistig a therapïau yn canolbwyntio ar waith i weithwyr o fentrau micro, bach a chanolig (BBaCh) gyda chyflwr iechyd ysgafn neu gymedrol sy'n cyfyngu ar allu i weithio. Roedd cyfranogwyr un ai yn absennol o'r gwaith - oherwydd salwch - neu'n 'bresennol' - ond mewn perygl o fod yn absennol. Anelwyd y gwasanaeth at gynorthwyo dychwelyd i'r gwaith yn fuan, gan wella llesiant a chynorthwyo adferiad. Roedd y gwasanaeth hefyd yn cynnig rhaglen hyfforddi unigryw i bobl oedd yn nodi eu bod yn cael eu 'tan-gyflogi' ac eisiau gwella eu sefyllfa waith, e.e. drwy ddyrchafiad neu weithio mwy o oriau. Gyda gwasanaethau'n cael eu darparu'n wreiddiol wyneb yn wyneb, newidiodd y cyfan i gael ei ddarparu o bell o ganlyniad i'r pandemig. Yna, roedd modd i gyfranogwyr gael cyfuniad o gymorth rhithiol ac wyneb yn wyneb, yn ôl dewis yr unigolyn.

Darparwyd cymorth personol i gyfranogwyr drwy dîm o gyflwynwyr achos ymrwymedig, a ddatblygodd becynnau cymorth wedi eu teilwra i fodloni anghenion unigol. Byddai'r rhain yn cynnwys cymorth therapiwtig, cysylltu â chyflogwr, neu gyfeirio at wasanaethau arbenigol am gymorth gyda materion eraill fyddai'n effeithio ar lesiant, megis problemau dyled neu ddibyniaeth. Darparwyd therapïau yn canolbwyntio ar waith drwy fframwaith sefydledig o ddarparwyr arbenigol yr RCS, gan gynnig ystod eang o therapïau seicolegol a chorfforol yn seiliedig ar dystiolaeth. Roedd y rhain yn cynnwys cwnsela, therapi ymddygiadol gwybyddol, therapi derbyn ac ymrwymo, hyfforddi, ffisiotherapi ac osteopatheg. Roedd y cymorth a'r therapïau ar gael yn Gymraeg a Saesneg.


# Cefndir a Throsolwg o'r Prosiect

Roedd Cymorth yn y Gwaith yn cynnig hyfforddiant a chymorth i fusnesau BBaCh i'w cynorthwyo i adeiladu gweithleoedd hapusach, iachach, i alluogi eu gweithwyr i ffynnu. Mynychodd rheolwyr ac arweinwyr BBaCh weithdai hyfforddi mewn meysydd testun llesiant allweddol, a chael hawl i gymorth wedi ei deilwra i ddatblygu eu polisïau ac arferion, wedi ei anelu at adeiladu diwylliannau cynhwysol a chefnogol yn y gweithle. Roedd hyn yn cynnwys cyfle datblygu unigryw i 'hyrwyddwyr llesiant yn y gweithle' ymrwymedig, oedd wedi eu hyfforddi i gyfeirio cydweithwyr at gymorth priodol, ac i hyrwyddo gweithgareddau llesiant yn y gweithle.


Hyrwyddwyd Cymorth yn y Gwaith yn eang ar draws y cymunedau iechyd a busnes yng Ngogledd Cymru, ac fe enillodd enw da cadarnhaol am ddarparu cymorth cyflym a phroffesiynol. Drwy gydol ei oes, trawsnewidiodd y gwasanaeth filoedd o fywydau unigol, a chynorthwyo cannoedd o fusnesau i weithredu newid ystyrlon o ferwn y gweithle.

# Gyfranogwyr


Statws y Cyfranogwr





Materion a Gyflwynwyd




# Rydym wedi cyflwyno tua 34,260 awr o therapi iechyd meddwl a chorfforol





# Deilliannau




Absennol dychwelodd i'r gwaith ar ol cyfnod o absenoldeb





Presennol adroddodd welliant iechyd o fewn 4 wythnos




Tangyflogedig adroddodd ganlyniadau cadarnhaol e.e. dyrchafiad, mwy o oriau









# Ystadegau


## Sector Cyflogaeth %




## Sir Breswyl y Cleient




## Lle clywodd y cyfranogwyr am amdanom ni



# Mentrau

**Busnesau micro, a busnesau bach a chanolig (BBaCh)**





## Gwnaethom gynnig cymorth a hyfforddiant i 286 o fusnesau i feithrin gweithleoedd iachach a hapusach, lle gall gweithwyr ffynnu.

## Dangosodd 53% newid cadarnhaol yn eu polisïau neu arferion.

# Deilliannau








LLES AR GYFER GWEITHIO
WELLBEING FOR WORK

# Tystebau

*"Mae'r gwasanaeth wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fy mywyd yn y gwaith ac yn gymdeithasol"*

*"Cynorthwyodd y sesiynau fi i adennill fy hyder a hapusrwydd cyffredinol"*

*"Byddwn yn annog unrhyw un mewn sefyllfa debyg 100% i gysylltu â RCS. Mwy na thebyg ni fuaswn yn ôl yn fy ngwaith nawr heb eu cymorth nhw"*

*"Byddwn yn argymell y gwasanaeth cymorth yn y gwaith yn fawr ac rwy'n teimlo y dylai gael ei gynnig ledled Cymru"*
**Meddyg Teulu, Caergybi**

LLES AR GYFER GWEITHIO
WELLBEING FOR WORK

# Tystebau

*"Roedd rhywun yno i mi, i wrando arnaf. Fel arfer, fi sy'n gwrando ar bawb arall. Rwy'n teimlo'n fwy hyderus yn y gwaith nawr ac rwy'n teimlo y gallwn weithio mwy o oriau petaent ar gael"*

*"Ni fuaswn wedi gallu aros yn y gwaith na datrys y materion cyn gyflymed heb y cymorth a dderbyniwyd"*

*"Mae'r gwasanaeth wedi bod yn amhrisiadwy ac mae'r cymorth rwyf wedi ei dderbyn wedi fy helpu i wynebu bywyd unwaith eto"*

*"Mae Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith y RCS wedi bod yn offeryn pwerus yn cynorthwyo ein cleifion yn lleol. Mae wedi darparu ymyraethau cynnar a hynod o hygyrch, sydd wedi atal llawer o gleifion, rwy'n siŵr, rhag datblygu problemau tymor hir"*
**Meddyg Teulu, Y Rhyl**